

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

### Y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.
2. Cafodd y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 4 Medi 2024. Gosodais LCM ar 18 Medi 2024 ac LCM Atodol ar 4 Tachwedd 2024.
3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 34 o welliannau ar 13 Tachwedd i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi, a ddechreuodd ar 20 Tachwedd 2024. Mae 14 o'r gwelliannau yn gwneud darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac fe'u disgrifir mharagraffau 10-46 isod.
4. Ceir fersiwn ddiweddaraf y Bil [yma](#).

### Amcan(ion) y Polisi

5. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) i gryfhau pwerau'r rheoleiddiwr ac i ddatrys y problemau llygredd dŵr. Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad manifesto'r Llywodraeth Lafur i lanhau ein dyfrffyrdd. Mae'r Bil yn ymateb i fethiannau eang canfyddedig y sector dŵr o ran mynd i'r afael â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio. Rwyf wedi cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr gael eu cymhwyso i Gymru.

### Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cwmpasu mesurau y bwriedir iddynt gryfhau pwerau rheoleiddwyr y diwydiant dŵr, gan gynnwys Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI). Gwneir y newidiadau a weithredir gan y Bil drwy gyfuniad o ddarpariaethau annibynnol a diwygiadau i Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991, sydd gyda'i gilydd yn gyfran arwyddocaol o'r ddeddfwriaeth sy'n bod sy'n ymwneud â dŵr.
7. Cytunais mewn egwyddor i estyn y ddarpariaeth i Gymru a cheisio pwerau sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy'r Bil.

## **Y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

8. Bu trafod rheolaidd rhwng y DU a Llywodraeth Cymru gydol taith y Bil trwy'r Senedd, gan gynnwys y cam gwneud gwelliannau yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi.
9. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am welliant i estyn Cymal 2 (Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd) i Gymru, sydd wedi'i gyflwyno fel rhan o Gyfnod Adrodd yr Arglwyddi. Yn ogystal â hyn, mae gan Lywodraeth y DU welliannau pellach yn ymwneud â Chymalau sy'n bod eisoes ac o ran creu rhai newydd.

## **Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU/y cytunwyd arnynt i'r Bil i'w hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Mae'r grwpiau o welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn berthnasol i Gymalau 2 (Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd) ac 13 (Maint, cychwyn, darpariaethau trosiannol a theitl byr), ac yn cyflwyno dau Gymal newydd. Mae rhai o'r gwelliannau'n rhai canlyniadol a thechnegol eu natur.
11. Cyflwynwyd 65 o welliannau i'r Bil yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi. O'r rheini, cyflwynwyd 34 gan y Llywodraeth. Mae'r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at y rhai a ddefnyddir yn y papur diwygio a gyhoeddwyd cyn Cyfnod Adrodd yr Arglwyddi, sydd ar gael trwy'r ddolen hon: [HL Bill 45—1](#).
12. O ran eu themâu, gellir grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn:
  - Cymal 2: Estyn cymhwysedd i Gymru;
  - Cymal 2: Gwneud Prif Weithredwyr yn atebol yn bersonol am gynhyrchu Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd (PIRPs);
  - Cymal 2: Ehangu'r ddyletswydd i greu PIRPs fel ei bod yn gymwys i gwmnïau cyflenwi dŵr yn ogystal â chwmnïau carthffosiaeth;
  - Cymal 2: Ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr ddarparu adroddiad gweithredu blynyddol gyda'u PIRPs;
  - Cymal 2: Ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr amgylcheddol ystyried record cwmnïau dŵr o ran rhoi'r cynlluniau hyn ar waith wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio craidd;
  - Cymal Newydd: Ehangu dyletswyddau Ofwat i gynnwys rhoi sylw i dargedau newid hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n weithredol yn Lloegr (ond nid yng Nghymru); a
  - Cymal Newydd: Cynnwys dyletswydd ar gwmnïau dŵr i roi sylw dyledus i atebion sy'n seiliedig ar natur wrth gynhyrchu cynlluniau draenio a dŵr gwastraff (DWMPs).
  - Gwelliannau canlyniadol i Gymal 13 ynghylch cychwyn y cymalau newydd ac estyn Cymal 2 i Gymru.

13. Gwelliant 12 (Cymal 2)

Gwelliant technegol canlyniadol sy'n symud y cymal newydd ar gynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd i rywle arall yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991 (o o flaen adran 95 i ar ôl adran 205). Mae hyn yn ganlyniad i'r gwelliannau sy'n estyn Cymal 2 i'r rhwydwaith cyflenwi dŵr.

14. Gwelliant 13 (Cymal 2)  
Gwelliant canlyniadol i welliant 12 sy'n ail-rifo'r cymal cyntaf ar PIRPs yn 205A er mwyn mynd i'r afael â'i leoliad newydd o fewn Deddf Diwydiant Dŵr 1991.
15. Gwelliant 14 (Cymal 2)  
Un o grŵp o welliannau sy'n newid "sewerage undertaker" i "relevant undertaker" ac yn estyn PIRPs i'r rhwydwaith cyflenwi dŵr.
16. Gwelliant 15 (Cymal 2)  
Dileu'r llinell "whose area is wholly or mainly in England" er mwyn estyn y ddarpariaeth i Gymru.
17. Gwelliant 16 (Cymal 2)  
Yn newid "sewerage system" i "system". Mae hwn yn un o grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 fel ei fod yn cwmpasu'r rhwydwaith cyflenwi dŵr yn ogystal â'r rhwydwaith carthffosiaeth.
18. Gwelliant 17 (Cymal 2)  
Yn newid "sewerage system" i "system". Mae hwn yn un o grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 fel ei fod yn cwmpasu'r rhwydwaith cyflenwi dŵr yn ogystal â'r rhwydwaith carthffosiaeth.
19. Gwelliant 18 (Cymal 2)  
Yn newid "sewerage system" i "system". Mae hwn yn un o grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 fel ei fod yn cwmpasu'r rhwydwaith cyflenwi dŵr yn ogystal â'r rhwydwaith carthffosiaeth.
20. Gwelliant 19 (Cymal 2)  
Mae hwn yn dileu "*an assessment of the progress achieved in implementing measures specified in previous plans published under this section*" o'r manau y mae'n rhaid i PIRP ymwneud â nhw.
21. Gwelliant 20 (Cymal 2)  
Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu cais Llywodraeth Cymru i estyn Cymal 2 i Gymru. Mae'n newid "Secretary of State" i "Ministers" (a ddiffinnir yn ddiweddarach) yn adran 94EA(4)(h) i ganiatáu i'r cymal ymwneud â Chymru neu Loegr fel y bo'n gymwys.
22. Gwelliant 21 (Cymal 2)  
Dyma un o grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 i Gymru. Mae hwn yn diwygio adran 94EA(5) fel bod y gofyn i gynnal ymgynghoriad cyn rhoi cyfarwyddiadau yn cwmpasu'r Gweinidogion perthnasol a'r asiantaeth berthnasol (h.y. EA neu CNC) fel y bo'n gymwys.

23. Gwelliant 22 (Cymal 2)  
Mae'r gwelliant yn dileu "sewerage" ac yn mewnosod "relevant". Mae hwn yn un o grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 fel ei fod yn cwmpasu'r rhwydwaith cyflenwi dŵr yn ogystal â'r rhwydwaith carthffosiaeth.
24. Gwelliant 23 (Cymal 2)  
Yn rhoi "Asiantaeth yr Amgylchedd" yn lle "asiantaeth briodol". Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu cais Llywodraeth Cymru i estyn Cymal 2 i Gymru.
25. Gwelliant 24 (Cymal 2)  
Mae hwn yn diwygio adran 94EA(7), sy'n gofyn am gynnal ymgynghoriad cyn cyhoeddi canllawiau, fel bod y cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r EA bellach yn cwmpasu Ysgrifennydd/Gweinidogion Cymru ac EA/CNC fel y bo'n gymwys. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu cais Llywodraeth Cymru i estyn Cymal 2 i Gymru.
26. Gwelliant 25 (Cymal 2)  
(7A) newydd i gymal 9EA o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 gan ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd gynnwys datganiad gan brif weithredwr y cwmni dŵr yn cadarnhau ei fod wedi cymeradwyo'r cynllun yn bersonol. Mae hyn yn cyflwyno atebolrwydd personol mewn perthynas â'r cynlluniau.
27. Gwelliant 27 (Cymal 2)  
Mae'r gwelliant yn dileu "sewerage" ac yn mewnosod "relevant". Mae hwn yn un o grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 fel ei fod yn cwmpasu'r rhwydwaith cyflenwi dŵr yn ogystal â'r rhwydwaith carthffosiaeth.
28. Gwelliant 28 (Cymal 2)  
Mae hwn yn ychwanegu diffiniad newydd o "appropriate agency" at adran 94EA(9) er mwyn iddo allu cynnwys EA neu CNC fel y bo'n gymwys. Dyma un o'r grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 i Gymru.
29. Gwelliant 29 (Cymal 2)  
Mae'r gwelliant hwn yn diffinio "chief executive" at ddibenion gwelliant 25 a chyflwyno atebolrwydd personol mewn perthynas â PIRPs.
30. Gwelliant 30 (Cymal 2)  
Mae hwn yn newid yr adran 94EA newydd, sy'n cynnwys y gofyniad sylfaenol i baratoi a chyhoeddi PIRP ac i ddileu "whose area is wholly or mainly in England" sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu'r cymal i Loegr yn unig. Dyma un o'r grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 i Gymru.
31. Gwelliant 31 (Cymal 2)  
Mae hwn yn ychwanegu diffiniad newydd o "system" fel a ganlyn er mwyn estyn PIRPs i gynnwys y rhwydwaith cyflenwi dŵr ac mae'n delio hefyd â phan fydd ymgwymerwr yn cwmpasu:

*"system", in relation to a relevant undertaker, means—*

*(a) in the case of a water undertaker, its supply system within the meaning of Chapter 1A of Part 2 (see section 17B);*

*(b) in the case of a sewerage undertaker, its sewerage system within the meaning of that Chapter (see section 17BA(7)).*

*In the case of a relevant undertaker that is both a water undertaker and a sewerage undertaker, the duty in subsection (1) is to be discharged in respect of both of its systems in a single plan.”*

32. Gwelliant 32 (Cymal 2)

Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar weithrediad eu cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd blaenorol. Mae'r gwelliant yn ychwanegu adran newydd 94EAA sy'n eistedd rhwng yr adrannau 94EA a 94EB newydd. Mae hyn yn ychwanegu gofyniad newydd i gynhyrchu adroddiad ychwanegol gyda phob PIRP ac eithrio'r un cyntaf sy'n asesu:

*(a) the extent to which it succeeded in implementing the planned measures during the preceding calendar year, and*

*(b) to the extent that it failed to implement those measures during that year—*

*(i) the reasons for that failure, and*

*(ii) how the undertaker intends to avoid repeating that failure in respect of any measures in its current plan that are the same as, or similar to, those in respect of which the failure occurred.*

Mae'r gwelliant hefyd yn ychwanegu at ddarpariaeth sy'n estyn dyletswydd ymgymerydd i ystyried canllawiau PIRP ynghylch y cynlluniau ychwanegol hyn.

33. Gwelliant 33 (Cymal 2)

Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniad i ddiwygiadau eraill y llywodraeth sy'n estyn y Cymal fel ei fod yn cwmpasu'r rhwydwaith cyflenwi dŵr, megis gwelliant y Gweinidog ar dudalen 5, llinell 38, a gwelliannau'r Gweinidog sy'n estyn Cymal 2 i Gymru.

34. Gwelliant 34 (Cymal 2)

Gwelliant i'r drosedd yn 94EB(2) o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 am beidio â chyhoeddi cynllun lleihau digwyddiadau llygredd. Mae hwn wedi'i rannu'n ddau, felly os na fydd yr ymgymerydd wedi cyhoeddi cynllun, bellach cyflawnir y drosedd gan (a) yr ymgymerydd a (b) y prif weithredwr fel ei gilydd, yn amodol ar ddarpariaeth sy'n rhoi amddiffyniad posibl i'r prif weithredwr.

35. Gwelliant 35 (Cymal 2)

Gwelliant canlyniadol i welliant 34.

36. Gwelliant 36 (Cymal 2)  
Mae hwn yn newid y gofyniad yn adran 94EA(6) bod ymgymerydd carthffosiaeth yn rhoi sylw i arweiniad a roddir i gwmpasu arweiniad gan yr EA neu CNC fel y bo'n gymwys. Mae'n rhan o'r grŵp o welliannau sy'n estyn Cymal 2 i Gymru
37. Gwelliant 37 (Cymal 2)  
Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr amgylcheddol ystyried record cwmnïau dŵr o ran rhoi'r PIRPs ar waith wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio craidd.
38. Gwelliant 38 (Cymal 2)  
Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniad i welliannau eraill, gan gynnwys y gwelliannau i estyn Cymal 2 i Gymru.
39. Gwelliant 42 (Cymal Newydd)  
Cymal newydd ar ôl Cymal 3 i gynnwys dyletswydd ar gwmnïau dŵr i roi sylw dyledus i atebion sy'n seiliedig ar natur wrth gynhyrchu cynlluniau draenio a dŵr gwastraff (DWMPs). Gwneir hyn drwy ddiwygio adran 94A(3) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr (fel y'i mewnosodwyd gan adran 79 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021) i ychwanegu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur fel maes ychwanegol y mae'n rhaid i gynlluniau draenio a rheoli carthffosiaeth ymdrin ag ef. Nid yw adran 79 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 wedi cychwyn yng Nghymru eto.
40. Gwelliant 48 (Cymal Newydd)  
Cymal newydd a fewnosodwyd o flaen Cymal 8 sy'n rhoi dyletswydd newydd ar Ofwat i roi sylw i dargedau amgylcheddol wrth ymgymryd â'i swyddogaethau rheoleiddiol a chyfrannu at sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 1 o Deddf Newid Hinsawdd 2008 ac Adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021.

Mae Deddf Newid Hinsawdd 2008 yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae darpariaethau perthnasol Deddf yr Amgylchedd 2021 yn gymwys yn Lloegr yn unig. Mae'r gwelliant wedi'i ddrafftio er mwyn rhoi pwerau cychwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru o ran y ddyletswydd sy'n ymwneud â Deddf Newid Hinsawdd 2008. Mae'r darpariaethau yn Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ymwneud â thargedau ar gyfer ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth a lleihau gwastraff.

Mae dyletswydd debyg eisoes ar Ofwat mewn perthynas â Chymru. Datganiad Polisi Strategol (SPS) Gweinidogion Cymru 2022 a gyhoeddwyd yn unol ag Adran 2B o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 ac sy'n nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru yr ydym yn disgwyl i Ofwat eu cyflawni wrth reoleiddio cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Dau o'r blaenoriaethau hyn yw:

*Argyfyngau Hinsawdd a Natur – Dylai cwmnïau dŵr fabwysiadu arferion ac ymddygiad sy'n gweithredu fel patrwm enghreifftiol o weithio*

*ac yn galluogi newid yn gadarnhaol i sicrhau cymdeithas carbon sero net yng Nghymru.*

*Amgylchedd - rydym am weld newid i ymagwedd sy'n seiliedig ar ddalgylch, yn cael ei harwain gan ddeilliannau, gydag atebion partneriaeth (gan gynnwys cwsmeriaid) seiliedig ar natur sy'n mynd i'r afael â gwraidd problemau. Lle bynnag y bo modd, dylai cwmnïau fodloni neu fynd y tu hwnt i ofynion yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol a chyflawni buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach wrth gyflawni'u swyddogaethau.*

41. Gwelliant 60 (Cymal 13)  
Mae hwn yn welliant canlyniadol sy'n cefnogi estyn Cymal 2 i Gymru. Mae'n newid y darpariaethau cychwyn yng nghymal 13 drwy ddileu'r hen is-adranau (3) a (4) a rhoi darpariaethau newydd yn eu lle fel bod cymalau 1, 2 a 3 yn cychwyn trwy reoliadau gan naill ai Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru fel y bo'n gymwys. Gwnaed hyn o'r blaen ag is-adran (3) sy'n cwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol a (4) sy'n cwmpasu Gweinidogion Cymru, oherwydd ar y pwynt hwnnw roeddent ychydig yn wahanol (gan nad oedd cymal 2 yn gymwys yng Nghymru). Fodd bynnag, gan eu bod bellach yr un peth, fe'i cwmpesir mewn un ddarpariaeth, er o hyd o dan ddwy is-adran
42. Gwelliant 61 (Cymal 13)  
Mae'r gwelliant hwn yn darparu ar gyfer cychwyn y Cymal newydd ar atebion sy'n seiliedig ar natur yn Lloegr ar ôl Cymal 3.
43. Gwelliant 62 (Cymal 13)  
Mae'r gwelliant hwn yn darparu ar gyfer cychwyn y Cymal newydd ar Ofwat trwy reoliadau yn Lloegr gan roi sylw i'r targedau amgylcheddol, a fewnosodwyd o flaen Cymal 8.
44. Gwelliant 63 (Cymal 13)  
Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniad i'r gwelliannau sy'n estyn Cymal 2 i Gymru.
45. Gwelliant 64 (Cymal 13)  
Mae'r gwelliant hwn yn darparu ar gyfer cychwyn y Cymal newydd ar atebion sy'n seiliedig ar natur trwy reoliadau yng Nghymru, ar ôl Cymal 3.
46. Gwelliant 65 (Cymal 13)  
Mae'r gwelliant hwn yn darparu ar gyfer cychwyn y Cymal newydd ar Ofwat trwy reoliadau yng Nghymru gan roi sylw i'r targedau amgylcheddol, a fewnosodwyd o flaen Cymal 8.

### **Barn Llywodraethau Cymru a'r DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

47. Nid yw'r gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU yn

newid fy marn ynghylch y gofyn am gydsyniad ar gyfer y cymalau hynny y maent yn eu diwygio. Hynny am fod y cymalau hynny'n ymwneud â mater datganoledig, sef y diwydiant dŵr.

48. Barn Llywodraeth y DU yw bod cymalau 2 a 13, a'r cymalau newydd y mae'r gwelliannau'n ymwneud â nhw, yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

49. Mae'r rhesymau a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol ar y Bil hwn ynghylch pam ei bod yn briodol i ddeddfwriaeth y DU wneud darpariaeth am Gymru yn y Bil hwn yn parhau'n berthnasol. Rwy'n ailddatgan fy nadleuon yma er hwylustod cyfeirio.
50. Bydd y Bil yn dod â newidiadau cadarnhaol ac yn cefnogi ein nod cyffredinol i leihau llygredd dŵr yng Nghymru. Mae'r Bil yn deddfu ar ystod o bynciau a materion polisi y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu nodau ac amcanion clir arnynt.
51. Mae dŵr yn ei hanfod yn fater trawsffiniol, ac mae effeithiau amgylcheddol ansawdd dŵr yn fater na allwn ei ddatrys ar ein pennau ein hunain. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi mabwysiadu dull cydweithredol yng Nghymru o ran gwella ansawdd dŵr a llywodraethiant yn y sector, ac mae'r Bil hwn yn gyfle i ymestyn y cydweithrediad hwnnw ar draws y ffin.
52. Mae rhai rheoliadau a chyfreithiau hefyd yn gymwys yng Nghymru a Lloegr ill dwy. Mae dull cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb rheoleiddiol. Mae rhai elfennau o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, yn enwedig o ran ansolfedd, felly ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Senedd mor gynhwysfawr â'r cynigion cyfredol.

### **Goblygiadau ariannol**

53. Nid yw'r gwelliannau'n golygu unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

### **Casgliadau**

54. Yn fy marn i, mae'n briodol delio â'r gwelliannau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU trwy Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan fod ei amcanion yn cyd-fynd yn llwyr â pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r mater yn un trawsffiniol yn ei hanfod sy'n gofyn am gydweithio a chydlynu rhwng ein dwy Lywodraeth. Felly, rwy'n argymhell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chaniatâd.

### **Huw Irranca-Davies AS**

**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and  
Rural Affairs  
Tachwedd 2024**